**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 12ed Medi, 2022 drwy gyfrwng Zoom**

**Presennol**: Dwynwen (DP) **(Cadeirydd)** Iolo Roberts (IPR),Eryl (EO), Steve (SW),Iolo ap Gwynn (IAG), Sioned (SJ), Dewi (DH), Richard (RR), Keith (KT), Iona (IE)

Ymddiheuriadau: Dilys, Elen, Raymond

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **COFNODION**<br><br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Mai, 2022 fel rhai cywir | |
| 2. | **MATERION ARIANNOL**<br><br>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol<br><br>a. Materion Cyffredinol<br><br>Adroddodd<br>• bod 285 o aelodau wedi ailymuno hyd yma<br>• bod gan y Clwb oddeutu £4862.42 yn y banc yn cynnwys £881.41 o arian coffa Gareth Pierce<br>• ei bod wedi hawlio rhodd cymorth o £35.15 ar yr arian a dderbyniwyd er cof am Gareth<br>• ei bod wedi talu £150 i ymaelodi â'r Bartneriaeth Awyr Agored yn unol â phenderfyniad y pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mai.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth<br><br>b. Tâl Aelodaeth<br><br>Adroddodd<br>• bod y Clwb yn y Cyfarfod Blynyddol yn 2021 wedi penderfynu codi'r tâl aelodaeth i £25 o 1 Ionawr 2023 ymlaen gyda'r cynnydd yn cael ei ddefnyddio i gwrdd â'r cynnydd yn nhâl aelodaeth y Clwb i'r CMP.<br>• Bydd y CMP yn cyhoeddi eu tâl aelodaeth i aelodau unigol o glybiau am 2023 yn nechrau Medi gydag unrhyw gynnydd yn unol â chwyddiant. Pe byddai'r ffigwr yn cyrraedd £24 byddai'n bosib i'r Clwb gadw ei ben uwchben y dŵr ond byddai angen cynnydd pellach mewn blwyddyn neu ddwy. Fodd bynnag credai y byddai'n dda os y gellid cadw'r ffi cyn ised â phosib yn yr hinsawdd ariannol bresennol.<br><br>Cytunwyd derbyn y wybodaeth a chytuno, er bydd angen cadw llygaid ar gyfraniadau'r Clwb i'r CMP, y dylid cadw'r tâl aelodaeth yn £25 cyn hired â phosib. | |
| 3. | **CYFARFOD BLYNYDDOL 2022** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddodd IPR bod trefniadau wedi eu gwneud bellach i gynnal y Cyfarfod Blynyddol eleni yng Ngwesty'r Royal Oak ym Metws y Coed ar nos Sadwrn 19eg Tachwedd, 2022. Gofynnodd am arweiniad y pwyllgor ar y materion canlynol:<br><br>• Yn y cyfarfod yn 2021 fe roddwyd y cynnig i aelodau ymuno â'r cyfarfod drwy Zoom a holodd a oedd y pwyllgor o'r farn y dylid cynnig darpariaeth gyffelyb eleni<br><br>• Ni fydd siaradwr gwadd eleni ond awgrymodd y gellid defnyddio rhan o'r noson i gael dangosiad sydyn o sut i ddefnyddio'r diffibrilwyr mae arweinyddion teithiau bellach yn eu cario. Roedd nifer o aelodau wedi sôn na welsant erioed yr offer yn cael ei ddefnyddio.<br><br>• Cytuno ar y tâl i sicrhau y cyfarfod a chostau'r cinio ac ati.<br><br>Cytunwyd<br>i. er mwyn rhoi cyfle i aelodau sy'n byw yn bell neu ddim yn gallu bod yn bresennol y dylid trefnu i'r cyfarfod gael ei ddarlledu drwy Zoom hefyd a gofyn i DP drefnu<br>ii. y dylid cael dangosiad sydyn o sut i ddefnyddio'r diffibriliwr ar y noson a gofyn i DP a SJ drefnu<br>iii. hefyd os y cyfyd fideo ar gyfryngau ar y wefan megis "You Tube" ar sut i ddefnyddio'r offer y dylid gosod cysylltiad iddo ar wefan y Clwb er mwyn codi ymwybyddiaeth o sut i ddefnyddio'r offer<br>iv. y dylid codi tâl o £26 am fynychu'r Cinio Blynyddol | |
| **4.** | **<u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u>**<br><br>Adroddodd EO ar y materion canlynol<br><br>a. <u>Rhaglen Weithgareddau</u><br><br>• bod rhaglen bresennol y Clwb yn rhedeg tan ddiwedd y flwyddyn a diolchodd i bawb gytunodd i arwain teithiau<br><br>• awgrymodd gyda thaith y Clwb i'r Alban ym mis Chwefror y gellid defnyddio yr un gwesty yn Crianlarich unwaith eto gan ei fod wedi bod yn boblogaidd gydag aelodau a'i bod yn ardal sy'n cynnig nifer o opsiynau ar gyfer teithiau. Roedd wedi trafod gyda Gareth Everett a oedd yn barod i drefnu<br><br>• gyda thaith mis Mai credai y byddai o bosib yn well cynnig rhywbeth yn ystod y gwyliau hanner tymor gan fod wythnos Gŵyl y Banc yn hwylusach i nifer gymryd gwyliau o'r gwaith. Gellid ystyried yr Alban unwaith eto neu o bosib leoliad gwahanol fel Ardal y Llynnoedd.<br><br>• Roedd y ddwy daith ar a gynhaliwyd ar benwythnos 18/19 Mehefin , un ar Aran Fawddwy a Benllyn a'r llall ar y Berwyn fel rhan o benwythnos ar y cyd ag aelodau'r de wedi bod yn llwyddiannus a gellid ystyried trefnu rhywbeth cyffelyb yn ne Cymru y flwyddyn nesaf.<br><br>Cytunwyd<br><br>i. nodi'r wybodaeth a diolch i EO am ei holl waith<br><br>ii. cytuno â'r awgrym i ddychwelyd i Crianlarich ar gyfer taith mis Chwefror a diolch i Gareth | |

| | | |
|---|---|---|
| | am fod yn fodlon trefnu<br><br>iii. cytuno â'r awgrym ynglŷn â chael penwythnos preswyl i aelodau yn ne Cymru y flwyddyn nesaf<br><br>iv. ystyried cael taith wythnos breswyl yn ystod wythnos hanner tymor mis Mai mewn lleoliad i'w gadarnhau eto<br><br>b. <u>Rhoddion er cof am Gareth Pierce</u><br><br>Adroddodd EO bod yr Urdd yn trefnu penwythnos o weithgareddau awyr agored i 14 o bobl ieuanc yng Ngwersyll Glan-llyn ar 23-25 o Fedi. Llwyddwyd i ddenu criw i'w fynychu y tro hwn ac ymddengys na fyddent angen defnyddio'r arian sydd yng nghoffrau'r Clwb er cof am Gareth y tro hwn i ariannu'r penwythnos ond mi ellid ei ddatblygu yn ddigwyddiad blynyddol.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a chytuno cadw'r arian a dderbyniwyd er cof am Gareth wrth gefn am y tro ac y gellid ei ddefnyddio i gynorthwyo'r Urdd gyda gweithgareddau cyffelyb yn y dyfodol. | |
| **5.** | **<u>SWYDD YSGRIFENNYDD GWEITHGAREDDAU/ IS-GADEIRYDD</u>**<br><br>Adroddodd IPR y bydd swydd yr Ysgrifennydd Gweithgareddau yn dod yn wag yn y Cyfarfod Blynyddol eleni yn dilyn penderfyniad EO i roi'r gorau iddi ar ôl deng mlynedd. Hefyd gan y bydd tymor DP fel Cadeirydd yn dod i ben a SW yn symud i'r gadair, bydd swydd yr Is-gadeirydd hefyd yn dod yn wag yn y cyfarfod. Hefyd nododd y bydd cyfnod 3 aelod o'r pwyllgor yn dod i ben yn y cyfarfod yn unol â'r cyfansoddiad er y byddent yn gymwys i gael eu hail ethol.<br><br>Cafwyd trafodaeth ar sut i symud ymlaen a pha opsiynau y dylid eu dilyn i lenwi'r swyddi hyn. Crybwyllwyd nifer o aelodau cymwys ond nodwyd y byddai'n rhaid trafod hefo'r unigolion perthnasol yn y lle cyntaf. Credid hefyd ei bod yn bwysig bod yr holl aelodau yn cael eu hysbysu am y swyddi gwag hyn fel bod cyfle i unrhyw aelod eu llenwi. Byddai'r pwyllgor yn falch iawn o gael aelodau yn gwirfoddoli yn enwedig o'r to ifanc.<br><br>C ytunwyd<br><br>i. gofyn i IPR ysgrifennu at yr aelodau yn eu hysbysu fod swyddi gwag sef Ysgrifennydd Gweithgareddau, Is-gadeirydd ac aelodaeth o'r pwyllgor a gofyn i unrhyw un â diddordeb gysylltu ag ef erbyn dyddiad penodol yn ystod mis Hydref<br>ii. y dylai IPR gysylltu â DP a SW a'r swyddogion perthnasol eraill ar ôl y dyddiad perthnasol i asesu'r sefyllfa er mwyn gallu adrodd ar hyn i'r cyfarfod ym mis Tachwedd. | |
| **6.** | **<u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2022 A 2023</u>**<br><br>Adroddodd DP fod darlith Caradog Jones wedi bod yn boblogaidd iawn a Phabell y Cymdeithasau yn orlawn. Nododd EO fod y daith gerdded er cof am Gareth hefyd wedi profi yn boblogaidd iawn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Parthed  Eisteddfod 2023 yn Llŷn a Eifionydd nodwyd y bydd yn rhaid i'r Pwyllgor symud ymlaen i gytuno ar ei drefniadau ar gyfer y ddarlith yn y cyfarfod ym mis Ionawr. Crybwyllwyd y syniad o gysylltu â Catrin Parry  (merch leol i  ardal yr eisteddfod) i holi a  fyddai'n fodlon rhoi'r ddarlith yn 2023 ar rai o'i gweithgareddau awyr agored anturus a chyffrous.<br><br>Cytunwyd<br><br>i. diolch i bawb a fu'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer gweithgareddau'r Clwb yn yr Eisteddfod yn Nhregaron<br>ii. nodi y bydd y Pwyllgor yn ystyried ei drefniadau ar gyfer Eisteddfod 2023 yn ei gyfarfod ym mis Ionawr<br>iii. gofyn i DP holi Catrin Parry i weld a fyddai'n fodlon traddodi'r ddarlith yn 2023<br>iv. gellid ystyried, o gofio poblogrwydd y ddarlith eleni ,a ddylid chwilio am leoliad mwy ar y maes ar gyfer y ddarlith yn y  dyfodol. | |
| **7.** | **<u>OFFER Y CLWB</u>**<br><br>Cyflwynwyd rhestr gan DAP o holl offer y Clwb sydd yn ei  meddiant a'r offer sydd ym meddiant rhai o'r aelodau eraill hefyd.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth. | |
| **8.** | **<u>MATERION CMP</u>**<br><br>Adroddodd SW ar drafodaethau rhai o gyfarfodydd diweddar cangen leol  y CMP.<br><br>Ymysg pethau eraill adroddodd bod anniddigrwydd ynglŷn â'r diffyg ymgynghori gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryr gyda eu cynlluniau i ddatblygu llwybrau ym Maesgwn a Chrafnant.<br><br>Diolchwyd i SW am y wybodaeth.<br><br>Adroddodd KR ei fod wedi tynnu'n ôl o wasanaethau ar bwyllgor ardal y CMP oherwydd  diffyg amser . | |
| **9.** | **<u>MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u>**<br><br>Adroddodd DP fod DAP eisoes wedi sôn ei bod wedi talu aelodaeth y Clwb â'r Bartneriaeth a bod angen sicrhau fod yr aelodaeth yn ymwybodol fod cymorth ariannol hyd at gyfanswm o £500 y sefydliad ar gael i fynychu cyrsiau.<br><br>Cytunwyd<br><br>i.  bod angen rhoi sylw i'r ffaith y gellid hawlio cymorth am fynychu cyrsiau awyr agored drwy'r Bartneriaeth<br>ii. gofyn i EO dynnu sylw at hyn yn un o'i e-byst rheolaidd i'r aelodau<br>iii. gofyn i IAG hefyd roi cyhoeddusrwydd i hyn ar dudalen newyddion y wefan ac ar dudalennau Gweplyfr y Clwb. | |

| | | |
|---|---|---|
| **10.** | **<u>HYSBYSRWYDD</u>**<br><br>Adroddoddd SJ ei bod wedi bod yn siop "Go Outdoors" ym Mangor yn ddiweddar a bod y rheolwr yno wedi sôn wrthi am ei barodrwydd i'r Clwb allu hyrwyddo ei hun ar eu hysbysfyrddau i gwsmeriaid os oedd deunydd addas i'w arddangos.<br><br>Cytunwyd gofyn i DP lunio taflen y gellid ei harddangos mewn mannau fel hyn a'i throsglwyddo i SJ a hefyd i DH a allai ofyn i'r siop gyffelyb yng Nghaerdydd os y gallent wneud rhywbeth cyffelyb yn eu siop yn y ddinas. | |
| **11** | **<u>TAITH DRAMOR</u>**<br><br>Adroddodd KR ei fod wedi trafod gyda rhai aelodau y posibilrwydd o drefnu taith i Wlad yr Ia ac ei fod yn fodlon gwneud ymholiadau i weld beth fyddai'n bosib.<br><br>Cytunwyd ag awgrm KR i wneud ymholiadau ynglŷn â'r posibilrwydd o drefnu taith o'r fath gan bwysleisio yn unol â rheolau'r Clwb y byddai'n rhaid i'r daith fod yn hunan gyllidol. | |
| **12.** | **<u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u>**<br><br>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Lun 9fed o Ionawr, 2023 drwy gyfrwng Zoom. | |